## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 9 Mai 2001 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 5.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2000-01 & BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL 2001-02

### Testun

1. Gwahodd y pwyllgor i dderbyn (i) adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar gyfer 2000-01, a (ii) blaenraglen waith strategol ar gyfer 2001-02.

### Cefndir

2. Rhaid i bob pwyllgor pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf, ac i adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar gynnydd (RhS 9.9).

3. Eleni mae Panel y Cadeiryddion wedi cytuno y bydd adroddiadau cynydd blynyddol y pwyllgorau pwnc yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod llawn yr un amser a'u blaenraglenni gwaith. Amgaeir adroddiad drafft (Atodiad A).

4. Cytunodd y pwyllgor ar flaenraglen waith strategol 2001-02 ar 31 Ionawr a gwahoddwyd sylwadau gan y pwyllgorau pwnc eraill a'r Cabinet. Tynnodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes sylw at ei ddiddordeb yn yr adolygiad o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Roedd y Cabinet yn fodlon â'r rhaglen waith drafft. Amgaeir drafft terfynol (Atodiad B ac C).

### Amseru

5. Bwriedir cynnal dadl yn y cyfarfod llawn ar 17 Mai, a 10 Mai yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno papurau.

### Casgliad

6. Gwahoddir yr aelodau i gytuno ar (i) yr **adroddiad blynyddol** ar gyfer 2000-01 yn **Atodiad A**, (ii) y **flaenraglen waith strategol** ar gyfer Mai 2001 hyd Rhagfyr 2002 yn **Atodiad B**, sy'n cynnwys **blaenraglen waith fanwl** ar gyfer tymhorau'r haf a'r hydref, yn **Atodiad C**.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

Mai 2001

**ATODIAD A**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9:**

**EBRILL 2000 - EBRILL 2001**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad Cenedlaethol. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar sefyllfa'r blaenraglen waith, ac mae'n mynd i'r afael â gweithgareddau'r pwyllgor o'i gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2000 tan ddiwedd Ebrill 2001.

1.2 Cadeirydd y Pwyllgor yw Richard Edwards a'r aelodau presennol yw: Mick Bates, David Davies, Geraint Davies, Sue Essex (y Gweinidog dros yr Amgylchedd), John Griffiths, Helen Mary Jones, Tom Middlehurst, Karen Sinclair a Rhodri Glyn Thomas. Yr ysgrifenyddiaeth yw: Siwan Davies (Clerc y Pwyllgor), Vaughan Watkin (Dirprwy Glerc y Pwyllgor) a Juliette Selby (Cymorth i'r Pwyllgor).

1.3 Newidiwyd llawer ar aelodaeth y Pwyllgor ers ethol yr aelodau cyntaf ar 29 Mawrth 2000:

- 10 Hydref 2000 – daeth Helen Mary Jones a Rhodri Glyn Thomas yn lle Jocelyn Davies a Gareth Jones;
- Tachwedd 2000 – ymddiswyddodd John Marek ar ôl iddo gael ei ethol yn Ddirprwy Brif Weinidog Cymru. Daeth Tom Middlehurst a Karen Sinclair yn lle John Marek a Carwyn Jones, daeth Mick Bates yn lle Christine Humphries, a gadawodd Glyn Davies y pwyllgor pan ailetholwyd aelodau'r pwyllgorau pwnc ar 9 Tachwedd 2000.

1.4 Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r pwyllgor 21 gwaith, gan gynnwys cyfarfod brys yn ystod toriad Pasg 2001 i drafod effeithiau argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau ar yr amgylchedd.

## 2 Dull o weithio

2.1 Fel rhan o'r ymrwymiad i sicrhau bod ei drafodion yn fwy hygyrch i bobl Cymru, cyfarfu'r Pwyllgor yn Sir Benfro yn ystod tymor yr haf ac yn Eryri yn yr hydref. Cafodd y cyfarfod a oedd fod i gael ei gynnal yn Aberhonddu yn ystod y gwanwyn ei ohirio tan yr haf oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau. Cynhaliwyd y ddau bwyllgor ar gyfer ymchwiliad Nantygwyddon yn y Rhondda, gan ei gwneud hi'n haws i bobl leol fynychu'r cyfarfod.

## 3 Cylch gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, sy’n cwmpasu: polisïau’n ymwneud â’r amgylchedd, gan gynnwys materion cefn gwlad; Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol; cynllunio; trafnidiaeth a phriffyrdd; a Cadw (henebion ac adeiladau hanesyddol a rhestredig). Ym mis Tachwedd 2000 cafodd datblygu cynaliadwy ei ychwanegu at y portffolio.

3.2 Mae cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc wedi’u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Ceir copi yn **Atodiad 1**.

## 4 Blaenoriaethau

4.1 Yn y cyfarfod cyntaf, gan fod y cylch gwaith mor eang, cytunwyd y dylai’r pwyllgor ganolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi hynny lle y gallai sicrhau’r dylanwad mwyaf. Nododd yr aelodau dair blaenoriaeth ym maes datblygu polisi:

- ymgymryd ag **adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus** yng Nghymru;
- chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu **Strategaeth Wastraff** i Gymru
- cefnogi’r gwaith o **ddatblygu fframwaith gofodol cenedlaethol newydd ar gyfer cynllunio** a’r adolygiad presennol o **Ganllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio**

4.2 Yn ychwanegol at y blaenoriaethau ar gyfer datblygu polisi, roedd cwrdd â gofynion eraill yn y rheolau sefydlog yn rhan o’r rhaglen waith strategol ar gyfer Mai 2000 – Rhagfyr 2001, yn ogystal â chyfrannu at amcanion "Gwell Cymru" fel a ganlyn:

- ‘Symbylu datblygiad sy’n diogelu adnoddau naturiol ac yn parchu’r amgylchedd’ – cyfrannu at ddiwygio Canllawiau Cynllunio a’r Cynllun Datblygu Cynaliadwy;
- ‘Cyflawni safonau uchel wrth reoli’r amgylchedd’ – cyfrannu at y gwaith o ddiwygio’r Canllawiau Cynllunio, at ddatblygu Strategaeth Wastraff ar gyfer Cymru, a llywio a monitro Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a thri Pharc Cenedlaethol Cymru;
- ‘Datblygu system drafnidiaeth gynaliadwy, wedi’i chydlynu’n well er mwyn cefnogi cymunedau lleol a helpu i greu economi llewyrchus’ – cynnal adolygiad o’r polisi trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru;
- ‘Hybu ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg, ein diwylliant a’n treftadaeth a chyfleoedd chwaraeon, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach’ –cadw’r ystyriaethau hyn mewn cof wrth wneud ei waith ei hun ac wrth lywio a monitro Cadw: Henebion Cymru.

## 5 Y Gwaith a’r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

### *Ymchwiliad Nantygwyddon*

5.1 Ar 4 Gorffennaf gofynnodd y Cynulliad Cenedlaethol i’r pwyllgor i gynnal ymchwiliad annibynnol i safle tirlenwi Nantygwyddon yn y Rhondda a gwneud argymhellion penodol i’w hystyried wedyn yn y Cyfarfod Llawn.

5.2 Ddiwedd tymor yr haf cytunodd aelodau ar gylch gwaith yr ymchwiliad ac ar rôl y pwyllgor, a chytunwyd ar gylch gwaith manwl yr ymchwiliad ddechrau tymor yr hydref. Yn dilyn cystadleuaeth agored, penododd y Gweinidog dros yr Amgylchedd ymchwilydd annibynnol i helpu'r pwyllgor gyda'i ymchwiliad, gan weithredu ar argymhelliad panel penodiadau cyhoeddus y pwyllgor ac aseswr annibynnol.

5.3 Cynhaliodd y pwyllgor ddau gyfarfod yn y Rhondda ddechrau'r hydref lle clywodd aelodau farn y bobl leol a chyrff lleol a oedd yn gyfrifol am sefydlu, rheoli a rheoleiddio safle tirlenwi Nantygwyddon. Comisiynwyd yr ymchwilydd annibynnol, David Purchon, i gynnal ymchwiliad manwl, ac adrodd yn gyflym, yn ddelfrydol o fewn chwe mis. Dechreuwyd cynnal ymchwiliadau manwl ddechrau mis Tachwedd.

5.4 Bu'r ymchwilydd annibynnol yn ceisio cael tystiolaeth a barn amrediad eang o unigolion a chyrff, a chomisiynodd ddau adroddiad arbennig, un ar hydrogeoleg a'r llall ar wenwyneg. Gofynnwyd cwestiynau i bobl allweddol a oedd yn ymwneud â gwahanol faterion mewn perthynas â safle tirlenwi Nantygwyddon, ac fe'u hatebwyd mewn sesiynau cyhoeddus yn hen Siambrau'r Cyngor, Pentre, lle y rhoddodd amrediad eang o bobl dystiolaeth bersonol ynghylch eu profiadau. Trefnwyd bod y sesiynau rhoi tystiolaeth yn parhau yn ystod mis Ebrill a Mai.

5.5 Cyflwynwyd adroddiadau ar hynt y gwaith i'r Pwyllgor yn nhymor yr hydref a thymor y gwanwyn, a chyfarfu'r Cadeirydd â'r ymchwilydd annibynnol yn rheolaidd i drafod hynt y gwaith a'r materion a oedd yn deillio ohono. Disgwylir i'r adroddiadau nesaf gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym misoedd Mai a Mehefin, a disgwylir i'r adroddiad terfynol fod yn barod ddechrau tymor yr hydref.

***Hyder/Dwr Cymru***

5.6 Galwyd cyfarfod gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar fyr rybudd i archwilio darpar feddianwyr Hyder – Nomura a Western Power Distribution. Roedd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dwr, Prif Weithredwr Hyder, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Dwr OFWAT ar gyfer Cymru a chynrychiolwyr Undebau Llafur a Chyngor Defnyddwyr Cymru'n bresennol hefyd i fynegi'u barn ynghylch goblygiadau cymryd Hyder drosodd. Cyhoeddodd y pwyllgorau ddatganiad ar y cyd yn nodi'r egwyddorion y dylai unrhyw gwmni sy'n bwriadu prynu Hyder eu bodloni, a galwasant ar Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd gadw eu hawl o ran arfer ei bwerau o dan Adran 13 Deddf Diwydiant Dwr 1991 (i roi cyfarwyddyd i Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dwr beidio â gwneud addasiadau a argymhellir ganddo i amodau penodi Dwr Cymru), nes eu bod yn fodlon bod yr egwyddorion wedi'u bodloni gan gynigydd llwyddiannus.

5.7 Yn nhymor yr hydref aeth y pwyllgorau ati ar y cyd i archwilio cynnig Glas Cymru i gymryd drosodd Dwr Cymru oddi wrth berchnogion newydd Hyder, Western Power Distribution. Dylanwadodd cyd-ddatganiad y pwyllgorau ar benderfyniad Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dwr newydd i beidio â rhwystro'r cynnig.

***Clwy'r Traed a'r Genau***

5.8 Yn ystod toriad y Pasg 2001 cyfarfu'r pwyllgor â'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i ystyried goblygiadau argyfwng clwy'r traed a'r genau o safbwynt yr amgylchedd. Gwnaed datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, a gofynnwyd cwestiynau i Swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, a chynrychiolwyr o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Bwrdd Ymyrraeth.

***Datblygu Polisi (RhS 9.7 (i))***

- **Adolygiad o drafnidiaeth gyhoeddus**

5.9 Mabwysiadodd y pwyllgor y cylch gwaith canlynol ar gyfer ei adolygiad (a gafodd ei greu gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd) yn gynnar yn nhymor yr haf:

- I ystyried polisïau trafnidiaeth gyhoeddus y Cynulliad (yn cwmpasu gwasanaethau bysiau, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gymunedol) er mwyn canfod unrhyw newidiadau byr-dymor o fewn y fframwaith statudol, rheoleiddiol a threfniadol presennol a fyddai'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwell a mwy integredig ;
- I ystyried a fyddai unrhyw newidiadau tymor hwy i'r fframwaith statudol, rheoleiddiol a threfniadol mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus yn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwell gwasanaethau.

5.10 Yn dilyn cystadleuaeth agored, penodwyd Denys Morgan gan banel o aelodau'r pwyllgor, o bob plaid, yn ymgynghorydd arbenigol i helpu gyda'r adolygiad.

5.11 Cynhaliwyd dwy seminar drafnidiaeth yn ystod tymor yr haf lle clywodd y pwyllgor gan Gadeirydd y Comisiwn Trafnidiaeth Integredig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ymgynghorwyr Babtie (ar eu hastudiaeth o'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De), a'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (Cysgodol, bryd hynny). Gwahoddwyd sylwadau ysgrifenedig gan amrediad eang o sefydliadau yn ystod ymarfer ymgynghori rhwng Gorffennaf a Medi, ac ychwanegwyd at hyn gan gyflwyniadau mewn cyfarfodydd yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn.

5.12 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol yn ystod tymor yr haf, 2001:

- nodi safonau ansawdd ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus i allu mesur gwelliannau;
- asesu potensial y strwythurau trefniadol sy'n bodoli eisoes i roi gwelliannau o'r fath ar waith;
- dadansoddi gwahanol strwythurau trefniadol rhanbarthol, cyn gwneud unrhyw argymhellion ar yr hyn sy'n rhaid eu newid yn y strwythurau presennol.

5.13 Y nod yw ymgynghori ar adroddiad ac argymhellion drafft dros doriad yr haf, gan gyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyfarfod Llawn yn ystod tymor yr hydref.

- **Cyfrannu at ddatblygu polisi**

5.14 Ynghyd â chynnal ei adolygiad ei hun, cyfrannodd y Pwyllgor at y datblygiadau polisi canlynol

sy’n cael eu rhoi ar waith gan y Gweinidog a’i swyddogion:

- Cynigiodd y pwyllgor awgrymiadau ar gyfer sut i fynd â’r **Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn ei flaen** yn sgil ymatebion i’r ymgynghoriad, a newidiadau i ddrafft cynnar o’r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy, cyn trafodaethau yn y Cyfarfod Llawn;
- Cyflwynodd yr ymgasglwyr grwp Fforwm Cynllunio Defnydd Tir (a fu’n adolygu’r canllawiau polisi cynllunio ar gyfer Cymru) eu hadroddiad i’r pwyllgor, a mynegodd yr aelodau’u barn ar y drafft diwygiedig terfynol **Canllawiau Polisi Cynllunio Cymru** cyn ei ryddhau i ymgynghori arno’n gyhoeddus;
- Cymerodd aelodau ran mewn cynhadledd i ystyried rôl y **Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol** wrth fynd i’r afael â’r brif her a fydd yn wynebu Cymru yn y dyfodol;
- Cafodd aelodau gyfle i ddylanwadu ar ffurf y **Fframwaith Trafnidiaeth** ddwy waith cyn ymgynghori’n gyhoeddus arno a hefyd i roi sylwadau ar feini prawf ar gyfer dyrannu Grantiau Trafnidiaeth;
- Bu’r pwyllgor yn paratoi’n gynnar ar gyfer **Strategaeth Wastraff Cymru** ac yn rhan o’r broses o lunio’r rhaglen waith Uned Cynnal Polisi Gwastraff newydd y Cynulliad Cenedlaethol / Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn ystod y flwyddyn rhoddodd yr aelodau’u barn ar y trefniadau i gyflawni ymrwymiad Cymru yn sgil Cyfarwyddeb Tirlenwi’r Comisiwn Ewropeaidd a Chynllun Rheoli’r DU ar gyfer Allforio a Mewnforio Gwastraff. Trafododd y pwyllgor hefyd adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd ar Shanks Chemical Services, Pont-y-pwl (Rechem gynt).

***Adolygiad o Wariant a Gweinyddiaeth (RhS 9.7 (ii))***

5.15 Cyflwynwyd adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ym mhob cyfarfod ffurfiol o’r pwyllgor (ar wahân i sesiynau ymchwiliad Nantygwyddon), er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am faterion cyfredol a galluogi’r pwyllgor i adolygu datblygiadau o fewn y portffolio. Yn nhymor yr hydref hefyd cyflwynodd y Gweinidog adroddiad ar lifogydd, ac ategwyd hwnnw gan adroddiad dros dro ar y llifogydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a nodyn ychwanegol oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

***Adolygiad o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (RhS 9.7 (iii))***

5.16 Mae Cadw (Asiantaeth Weithredol y Cynulliad Cenedlaethol), Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Pharciau Cenedlaethol Cymru (Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri) yn dod o dan y portffolio hwn.

5.17 Yn ystod y flwyddyn cyfarfu’r pwyllgor â Phrif Weithredwr a Thîm Uwch Reolwyr **Cadw** ar dri achlysur i brofi targedau drafft a rhoi sylwadau ar y Cynllun Corfforaethol drafft, a chymharu perfformiad yn erbyn targedau.

5.18 Yn nhymor yr haf rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i geisiadau am arian a thargedau **Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd** a’r **Parciau Cenedlaethol** ac yn nhymor y gwanwyn bu’n archwilio perfformiad yn erbyn targedau. Rhoddodd y cyfarfodydd allanol yn nhymor yr haf a’r hydref gyfle i aelodau ymweld ag arfordir Penfro a Pharciau Cenedlaethol Eryri i’w gweld ar waith.

5.19 Cyflwynodd y pwyllgor ei sylwadau ar gylch gwaith drafft **adroddiad pob pum mlynedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru** a derbyniodd adroddiad dros dro drafft ar gam cyntaf yr adolygiad. Gofynnwyd am sylwadau'r pwyllgor ar gylch gwaith **Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol o Asiantaeth yr Amgylchedd** y Cynulliad Cenedlaethol/Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Derbyniodd y pwyllgor yr adroddiad terfynol ar **adolygiad pob pum mlynedd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Asiantaeth yr Amgylchedd,** a chytunwyd nad oedd angen y Pwyllgor Ymgynghorol bellach, yn enwedig o ystyried y gorgyffwrdd rhwng ei rôl a rôl y pwyllgor o dan Reol Sefydlog 9.7. Yn ystod y flwyddyn nododd y pwyllgor hefyd adroddiad ar gynnydd yr **adolygiad pob pum mlynedd yr Arolygiaeth Gynllunio** a'r **Cydbwyllgor Cadwraeth Natur.**

***Deddfwriaeth (RhS 9.8 (i))***

5.20 Ni wahoddwyd y pwyllgor i archwilio unrhyw is-ddeddfwriaeth ddrafft yn unol â Rheol Sefydlog 22. Er hynny, rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i weithredu **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yng Nghymru**. Yn nhymor yr hydref clywodd y pwyllgor farn cyrff statudol, tirfeddianwyr a chyrff gwirfoddol ar faterion yn ymwneud â rhoi'r Ddeddf hon ar waith (Mesur bryd hynny) yng Nghymru. Yn ystod tymor y gwanwyn bu'r pwyllgor yn ystyried, amlinelliad o raglen ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn rhoi'r darpariaethau'r Ddeddf ar waith yng Nghymru, ac fe'i cymeradwywyd.

***Cyllideb (RhS 9.8 (ii))***

5.21 Yn ystod tymor yr haf cytunodd y pwyllgor mai ei ddau brif flaenoriaeth o ran y gyllideb oedd datblygu strategaeth wastraff ar gyfer Cymru a gwella trafnidiaeth integredig. Roedd aelodau hefyd yn teimlo'n gryf y dylai datblygu cynaliadwy fod yn sail i bob un o polisïau a rhaglenni'r Cynulliad Cenedlaethol, ac y dylai pob cais am adnoddau ar gyfer cyflawni amcanion Gwell Cymru gael eu hasesu i weld pa mor gynaliadwy oeddent yn y tymor hir.

5.22 Roedd yna groeso cyffredinol i'r gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref, yn enwedig y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer prif flaenoriaethau'r pwyllgor a mwy o arian i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Parciau Cenedlaethol. Gofynnodd y pwyllgor am ddarpariaeth ddigonol ar draws portffolio'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn treiddio i mewn i bob polisi a rhaglen. Mae aelodau hefyd yn cefnogi ymdrechion y Gweinidog dros yr Amgylchedd wrth alw am drethi claddu sbwriel sydd wedi'u pridiannu'n llawn sy'n golygu y gallai arian y dreth fynd i gefnogi'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy.

***Cwynion (RhS 9.8 (iii))***

5.23 Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion i'r pwyllgor o dan y weithdrefn a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog 21.

***Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))***

5.24 Mick Bates a Richard Edwards ar hyn o bryd yw’r aelodau sy’n gyfrifol am benodiadau cyhoeddus o fewn cylch gwaith y pwyllgor. Yn ystod y cyfnod adrodd y rhain oedd yn gyfrifol am y ddyletswydd hon: Jocelyn Davies a Richard Edwards (Gorffennaf – Medi), a Richard Edwards a Helen Mary Jones (Tachwedd – Rhagfyr).

5.25 Ymgynghorwyd ag aelodau ynghylch penodi pobl i fod yn aelodau o Gyngor Cefn Gwlad Cymru (tri phenodiad) ac roeddent yn aelodau o’r panel a fu’n cyfweld ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (saith penodiad).

**6 Blaenraglen**

6.1 Amgaewyd rhaglenni gwaith strategol (Atodiad B) a manwl (Atodiad C) ar gyfer y cyfnod o Fai 2001 i Ragfyr 2002 isod.

**PWYLLGOR PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

**ADRODDIAD I’R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9:**

**EBRILL 2000 HYD EBRILL 2001**

**1 Cyflwyniad**

1.1 Mae pedwar aelod ar bob Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio a chânt eu hethol o’r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (neu grp o apeliadau/ceisiadau). Caiff aelodau eu dethol o’r Panel Penderfyniadau Cynllunio, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth sydd wedi’u hyfforddi at y diben hwn.

**2 Cylch gwaith a chyfrifoldebau**

2.1 Mae Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn penderfynu ar:

- Apeliadau o dan Adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (yn yr achosion hynny lle y mae’r Cynulliad wedi adennill yr awdurdod i benderfynu ar yr apêl oddi wrth yr Arolygydd penodedig);
- Ceisiadau am ganiatâd cynllunio sydd wedi’u galw i mewn gan y Cynulliad i benderfynu arnynt o dan Adran 77 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Ceisiadau i gadarnhau Gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992.

**3 Dull o Weithio**

3.1 Mae’r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn cwrdd yn breifat, a nodir eu penderfyniadau (ond nid eu trafodaeth) mewn llythyr, a gaiff ei gyhoeddi.

4. **Cyfarfodydd**

4.1 Etholwyd y pwyllgorau canlynol a daethant i benderfyniad yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cyfarfu Sue Essex (Cadeirydd), David Davies, Geraint Davies a John Griffiths fel **PDC 2000/1** ar 25 Mai 2000 i ystyried:
- Cais gan Mr a Mrs S George am ganiatâd i ymgymryd â gwaith datblygu yn Portfield Gate, Hwlffordd, Sir Benfro, sef adnewyddu Enfield Homestead, gan gynnwys troi ysgubor nad yw’n cael ei defnyddio yn dy sydd yn sefyll ar ei ben ei hun. **Ni roddwyd caniatâd**
- Cyfarfu Richard Edwards (Cadeirydd), Jocelyn Davies, Christine Humphreys (derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Jones) fel **PDC 2000/2** ar 18 Awst 2000 i ystyried:
- Cais gan Mr a Mrs M Woosnam i adeiladu arfaethedig ar annedd ac adeilad amaethyddol atodol newydd ar dir yn Gwestydd Uchaf, Cefnmawr, y Drenewydd, Powys. **Ni roddwyd**

**caniatâd**

- Cais gan Mr E Griffiths i godi annedd a storfa ar gyfer siop deithiol ar dir yn Y Glyn, Talgarreg, Ceredigion. **Ni roddwyd caniatâd**

- Apêl gan Edge Developments Cyf. i adeiladu warws manwerthu, canolfan arddio a maes parcio atodol, tirlunio a threfniadau mynediad ar dir yn union i'r dwyrain o gylchfan Croes Cwrlwys ger Cowbridge Road West a'r Ffordd Ddosbarthu Ymylol, Caerdydd. **Rhoddwyd caniatâd, yn dibynnu ar yr amodau**

- Cyfarfu Sue Essex (Cadeirydd), Tom Middlehurst, Rhodri Glyn Thomas (derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Davies) fel **PDC 2000/3** ar 14 Rhagfyr 2000 i ystyried:

- Cais gan Mr N C Hulme i adeiladu annedd newydd ar dir yng Nghoed-y-Cae, Abertyleri, Blaenau Gwent. **Ni roddwyd caniatâd**

- Cais gan Mrs S G James i godi byngalo yn Ffynnon Las, Goginan, Aberystwyth, Ceredigion. **Ni roddwyd caniatâd**

- Cais gan Bridgend Valleys Railway Company Cyf am orchymyn i drosglwyddo gan Railtrack CCC i'r rhai sy'n gwneud cais am y pwerau statudol i gynnal a chadw a rhedeg rhan o Reilffordd Cangen Cwm Garw yng nghymunedau Ynysawdre a Chwm Garw, Pen-y-bont ar Ogwr. **Gwnaethpwyd y gorchymyn**

- Cyfarfu David Davies (Cadeirydd), Karen Sinclair a Geraint Davies (derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Edwards) fel **PDC 2001/1** ar 7 Chwefror i ystyried:

- Cais gan Bartneriaeth Williams Humphreys i godi datblygiad preswyl a gwaith trin carthion ar dir Neuaddfraith, Aberbechan, y Drenewydd, Powys. **Ni roddwyd caniatâd**

- Cais gan Mr T A E Price a Mrs G M Price i adnewyddu caniatâd cynllunio datblygiad preswyl (codi 67 o dai, man chwarae, ffyrdd ystâd, lledu'r briffordd gyfagos a'r gwaith draenio) ar dir ym Mhwynt AO 2949 Llandysul, Trefaldwyn (Adnewyddu Caniatâd Cynllunio M18097). **Ni roddwyd caniatâd.**

- [Cyfarfu] Richard Edwards (Cadeirydd), John Griffiths, Rhodri Glyn Thomas a David Davies fel **PDC 2001/2** ar 4 Mai i ystyried:
- Cais gan Gwmni Cychod Ynys Môn Cyf i adeiladu marina a chyfleusterau, maes parcio a storfa gychod yn y Pwynt, Biwmares, Ynys Môn.
- Apêl gynllunio gan Mrs R E Davies i greu fflat llawr gwaelod yn Manor House, Vine Square, Llanfyllin, Powys.

ACHOS CYSYLLTIEDIG

- Apêl caniatâd adeilad rhestredig i wneud gwaith addasu mewnol er mwyn creu dwy fflat ac oriel gelf, creu ffenestr newydd ac addasu’r drws allanol sydd eisoes yn bodoli yn Manor House, Vine Square, Llanfyllin. Mae’r achos hwn yn gysylltiedig â’r apêl gynllunio gan Mrs R E Davies a chaiff hwn hefyd ei ystyried gan y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio.

**5 Adolygiad o weithdrefnau penderfyniadau cynllunio**

5.1 Yn dilyn adborth oddi wrth aelodau, gofynnodd y pwyllgor i’r Gweinidog adolygu’r broses penderfyniadau cynllunio i roi mwy o hyblygrwydd a’i gwneud hi’n bosibl i gymryd penderfyniadau o fewn amserlen resymol. Yn nhymor y gwanwyn, ar ôl ymgynghori â grwpiau’r pleidiau, cytunodd y pwyllgor ar gynigion a fyddai’n diwygio’r gronfa o aelodau a fyddai’n gymwys i fod yn aelodau o Bwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio. Bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn cyflwyno diwygiadau posibl i’r Rheolau Sefydlog i’r Pwyllgor Busnes maes o law.

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**Mai 2001**

**ATODIAD B**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL MAI 2001-RHAGFYR 2002**

**Rhagarweiniad**

1. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn un o saith o bwyllgorau pwnc y Cynulliad Cenedlaethol. Mae cylch gwaith y pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, sy’n cynnwys: datblygu cynaliadwy; trafnidiaeth a phriffyrdd; cynllunio; polisi ar yr amgylchedd, yn cynnwys materion cefn gwlad; Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol; a Cadw (henebion ac adeiladau hanesyddol a rhestredig).

**Dyletswyddau’r Pwyllgor**

2. Mae cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc wedi’u gosod allan yn y Rheolau Sefydlog, a atgynhyrchir yn **Atodiad 1**.

3. Mae rheol sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen dreigl o waith am gyfnodau o 12 mis o leiaf, ac ymgynghori gyda phwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ar y rhaglen cyn hysbysu’r cyfarfod llawn.

4. Mae Panel y Cadeiryddion wedi cytuno y dylai rhaglenni gwaith pwyllgorau fod yn strategol ac

ymdrin â chyfnod o 18 mis i 2 flynedd, gyda rhaglenni gwaith manylach am gyfnodau o dri mis.

**Nodau ac Amcanion**

5. Gyda chylch gwaith mor eang, bydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar y

meysydd hynny o ddatblygu polisi lle gallant gael y dylanwad mwyaf. Bydd y pwyllgor hefyd yn ceisio cyfrannu at gyflawni'r nodau ac amcanion a nodwyd yn *Gwell Cymru*, cynllun strategol y Cynulliad, ac yn arbennig: 'creu gwell economi ac economi gryfach' a 'gwell ansawdd bywyd' a'r tair prif thema: cynhwysiant, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy, sy'n rhan o bortffolio'r pwyllgor.

**Blaenoriaethau**

6. Bydd y Pwyllgor yn ceisio mynd ati i wneud ei waith mewn ffordd strategol, gan ganolbwyntio yn y flwyddyn sydd i ddod ar ddwy brif flaenoriaeth:

- **Ymchwiliad annibynnol i safle claddu sbwriel Nantygwyddon** - ymchwiliad yn edrych tuag ymlaen, a cheisio dod o hyd i wersi ar gyfer y dyfodol, mewn perthynas â'r safle ac mewn perthynas â materion mwy cyffredinol yn ymwneud â rheoli gwastraff. Disgwylir i'r pwyllgor dderbyn adroddiad terfynol yr ymchwilydd annibynnol erbyn hydref cynnar 2001, a rhoi gwybod i'r cyfarfod llawn am ei argymhellion erbyn diwedd tymor yr hydref;
- **Adolygiad o bolisi trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru** - ystyried dulliau o wella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn nodi: newidiadau byr-dymor o fewn y fframwaith statudol, rheoleiddiol a threfniadol presennol a fyddai'n hwyluso cyflwyno a defnyddio gwasanaethau gwell ac integredig; newidiadau hir-dymor i'r fframwaith statudol, rheoleiddiol a threfniadol o ran trafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n ei gwneud yn haws cyflwyno gwasanaethau gwell. Bwriada'r pwyllgor gyhoeddi adroddiad drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn diwedd tymor yr haf 2001 a chyflwyno'r adroddiad terfynol i'r cyfarfod llawn erbyn diwedd tymor yr hydref.

Caiff blaenoriaethau ar gyfer 2002, megis adolygiadau polisi posibl, eu hystyried a'u cytuno yn ystod tymor yr hydref. Maent yn debygol o ganolbwyntio ar faterion sy'n codi o'r Strategaeth Wastraff a'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy sy'n datblygu, a cheisiant gyd-fynd â pholisïau sy'n cael eu datblygu gan y Gweinidog, yn hytrach na'u dyblygu.

7. Mae Pennod 4 "Gwell Cymru" yn nodi nifer o faterion y mae angen i'r Cynulliad weithredu'n fuan arnynt. Bydd y Pwyllgor yn chwarae rhan bwysig o ran bwrw ymlaen â'r rhain, yn arbennig:

- 'Symbylu datblygiad sy'n diogelu adnoddau naturiol ac yn parchu'r amgylchedd' – bydd y Pwyllgor yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn monitro perfformiad yn erbyn targedau cynaliadwyedd;
- 'Cyflawni safonau uchel wrth reoli'r amgylchedd' – bydd y Pwyllgor yn monitro gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Cymru;

- ‘Datblygu system drafnidiaeth gynaliadwy, wedi’i chydlynu’n well er mwyn cefnogi cymunedau lleol a helpu i greu economi lewyrchus’ – bydd y Pwyllgor yn cwblhau ei adolygiad o bolisi trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd;
- ‘Hybu ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg, ein diwylliant a’n treftadaeth a chyfleoedd chwaraeon, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach’ – bydd y Pwyllgor yn cadw’r ystyriaethau hyn mewn cof wrth wneud ei waith ei hun ac wrth lywio a monitro CADW: Henebion Cymru.

**Materion eraill**

8. Bydd eitemau eraill o waith y pwyllgor yn cynnwys:

- adolygiadau perfformiad rheolaidd o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPB) sy’n rhan o’i gylch gwaith (RhS 9.7 (iii) – gweler uchod);
- ystyried deddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, fel y bo’n briodol (RhS 9.8(i) a 22);
- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad (RhS 9.8(ii));
- gweithdrefnau cwyno (RhS 9.8(iii) a 21);
- penodiadau cyhoeddus (RhS 9.8(iv) a 20);
- materion eraill y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato (RhS 9.8(v));
- holi Ysgrifennydd y Cynulliad yn fanwl (RhS 9.11).

9. Amgaeir rhaglen waith fanwl ar gyfer cyfnod Mai-Rhagfyr 2001.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2001**

**ATODIAD 1**

**CYFRIFOLDEBAU’R PWYLLGORAU PWNC**

1. Mae rheolau sefydlog 9.7 a 9.8 yn nodi cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc.

"9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau’r Cynulliad o fewn y meysydd y mae’r Ysgrifennydd

Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r Weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

"9.8 O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;

(ii) yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â rheol sefydlog 19;

(iii) yn cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 21 (cwynion);

(iv) yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan reol sefydlog 21; a

(v) yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

**ATODIAD C**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**BLAENRAGLEN WAITH FANWL – TYMHORAU'R HAF A'R GAEAF 2001**

| Cyfarfod | Eitem rhif | Eitemau ar yr Agenda |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 9 Mai<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5<br><br>6<br><br>7<br><br>8 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Nantygwyddon - Adroddiad cynnydd gan yr Ymchwilydd Annibynnol<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd (i gynnwys Fframwaith Polisi Agregau Morol Môr Hafren)<br><br>Adolygiad Polisi: trafodaeth (gweledigaeth a safonau ansawdd)<br><br>Adolygiad Polisi: Rapporteurs yn adrodd yn ôl ar ymweliadau â Sheffield a Frankfurt<br><br>FMPR Asiantaeth yr Amgylchedd – materion sy'n codi<br><br>Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf<br><br>(I'w gymeradwyo) Blaenraglen Waith Strategol ac Adroddiad RhS 9.9 terfynol |
| | | |
| Dydd Mercher 23 Mai<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>Parciau Cenedlaethol - etholiadau uniongyrchol<br><br>Adolygiad Polisi: cyflwyniadau a thrafodaeth (strwythurau trefniadol presennol)<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |
| Toriad: 28 Mai – 2 Mehefin | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 13 Mehefin<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>Adolygiad Polisi: trafodaeth (strwythurau trefniadol amgen)<br><br>Trafod blaenoriaethau'r gyllideb<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |
| Dydd Iau 21 Mehefin<br><br>2.00 – 5.00 pm<br><br>Bwlch ar gyfer busnes anffurfiol neu, gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes, cyfarfod ffurfiol | 1 | [CCNC – sesiwn ar y themâu yn y cynigion/Cynlluniau Corfforaethol drafft] |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 27 Mehefin<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5<br><br>6 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>[Nantygwyddon - Adroddiad cynnydd gan yr Ymchwilydd Annibynnol]<br><br>[Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd – os oes amser]<br><br>[Adolygiad Polisi: Ystyried yr adroddiad ac argymhellion drafft]<br><br>Fframwaith Trafnidiaeth<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 11 Gorffennaf<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5<br><br>6 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>[Adolygiad Pum Mlynedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru - adroddiad terfynol drafft]<br><br>Strategaeth Wastraff Ddrafft<br><br>[Trafod blaenoriaethau'r gyllideb – os oes angen]<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |
| Toriad yr Haf: 23 Gorffennaf – 12 Hydref | | |
| | | |
| Dydd Mercher 17 Hydref<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1 | [Ymchwiliad Nantygwyddon: adroddiad terfynol yr ymchwilydd annibynnol] |
| | | |
| Dydd Mercher 31 Hydref<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>[Adolygiad Polisi: Ystyried yr ymatebion i'r adroddiad a'r argymhellion drafft]<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |
| Dydd Iau 8 Tachwedd<br><br>2.00 – 5.00 pm<br><br>Bwlch ar gyfer busnes anffurfiol neu, gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes, cyfarfod ffurfiol | 1 | [Ymchwiliad Nantygwyddon: Ystyried yr argymhellion ar gyfer y cyfarfod llawn] |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Dydd Mercher 14 Tachwedd<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5<br><br>6 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>[Cadw – adroddiad hanner tymor]<br><br>[Ystyried y gyllideb ddrafft]<br><br>Drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru'<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |
| Dydd Mercher 28 Tachwedd<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4<br><br>5 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>[Adolygiad Polisi: Ystyried yr adroddiad i'r argymhellion drafft terfynol]<br><br>Bioamrywiaeth (yn benodol materion yn codi o Adroddiad Bioamrywiaeth y Mileniwm)<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |
| Dydd Mercher 12 Rhagfyr<br><br>2.00 – 5.00 pm | 1<br><br>2<br><br>3<br><br>4 | Ymddiheuriadau a dirprwyon<br><br>Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><br>[CCNC – archwiliad blynyddol]<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf |
| | | |
| Toriad y Nadolig: 17 Rhagfyr 2001 – 6 Ionawr 2002 | | |

**Eitemau i'w cynnwys pan fo'n addas:**

1. Adolygiad Pum Mlynedd PINS – adroddiadau cynydd
2. Cyflwyniad SRA – cynllun strategol (hydref 2001)
3. Datblygu Cynaladwy – Adroddiad Blynyddol y Cynulliad Cenedlaethol (hydref 2001)
4. Y Parciau Cenedlaethol – Etholiadau Uniongyrchol (Tachwedd 2001)
5. Rheoliadau CROW (haf a hydref 2001)

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2001**